# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Maenofferen

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod anghenion y disgyblion yn drylwyr ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae staff yn creu amgylchedd dysgu cynhyrchiol a hapus ar gyfer y disgyblion. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth gyd-chwarae â'u ffrindiau. Gwna'r disgyblion ddefnydd gwerthfawr o'r ardaloedd dysgu allanol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles a'u brwdfrydedd i ddysgu.

Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn dda ac yn cynnwys eu syniadau'n fwriadus fel rhan o'r ddarpariaeth. Maent yn cynnig cymorth defnyddiol i ddisgyblion, lle bo'n berthnasol, ond prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae staff yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion gyda phartneriaethau yn y gymuned yn hynod lwyddiannus, gan gynnwys wrth gymryd rhan yng gweithgareddau'r ganolfan amgylcheddol leol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarwyddiadau staff ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd mewn sesiynau dysgu. Mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gweithgareddau ymarferol, gan gynnwys arbrofion gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni, gan gynnwys rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae rhieni'n hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant gyda staff.

Mae'r pennaeth yn manteisio ar arbenigedd swyddog cyswllt teuluol yn effeithiol ar gyfer codi dyheadau'r disgyblion yn llwyddiannus a gwella cyfraddau presenoldeb, er enghraifft wrth iddynt ddysgu Cymraeg i drigolion yr ardal a chynnal gweithdai gwerthfawr iddynt yn yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025